

CANLLAW

Deddf Priodas (Cyplau o'r un rhyw) 2013:
Y Goblygiadau Cydraddoldeb a Hawliau
Dynol i Briodas a'r Gyfraith yng Nghymru
a Lloegr

Cyflwyniad

Mae'r Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 (y Ddeddf) yn ymestyn priodas i gyplau o'r un rhyw yng Nghymru a Lloegr. Mae'r canllaw hwn yn egluro'r newidiadau a gyflwynir gan y Ddeddf, a sut mae'n perthyn i ddeddfau cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'n cyfannu ein cyfarwyddyd cysylltiedig ar y gweithle a chyflenwi gwasanaethau; y ddarpariaeth o addysg mewn ysgolion; awdurdodau cyhoeddus; a sefydliadau crefyddol. Mae'r ddogfen hon yn ddefnyddiol i gyplau o'r un rhyw, cyflogwyr, cyflogeion, darparwyr gwasanaethau, cwsmeriaid, awdurdodau cyhoeddus a defnyddwyr eu gwasanaethau, sefydliadau crefyddol a'u swyddogion, yn ogystal ag ysgolion, eu cyflogeion, disgyblion, llywodraethwyr ac athrawon.

Mae hawliau dan ddeddfau cydraddoldeb yn amddiffyn yn erbyn gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon ar sail nodweddion gwarchodedig amrywiol, gan gynnwys priodas a phartneriaeth sifil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd. Hefyd mae deddfau hawliau dynol yn darparu amddiffyniad yn erbyn gwahaniaethu wrth fwynhau hawliau penodol, ac mae'n amddiffyn yr hawliau i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd, rhyddid i ymgynnull a rhyddid mynegiant.

Pwyntiau allweddol

- Mae'r Ddeddf yn perthyn i Gymru a Lloegr yn unig; mae gan yr Alban a Gogledd Iwerddon eu deddfwriaeth eu hunain ynghylch priodas.
- Mae'r Ddeddf yn galluogi cyplau o'r un rhyw i weinyddu priodasau yn unol â deddfau priodas sifil. Mae'n caniatáu i'r weithred o weinyddu priodas cyplau o'r un rhyw gael ei chynnal mewn swyddfeydd cofrestru ac mewn safleoedd cymeradwy (fel gwestai).
- Gall sefydliadau crefyddol sy'n dymuno, ddewis cynnal priodasau crefyddol o gyplau o'r un rhyw. Nid yw'n gyfreithlon bosibl i gwpl o'r un rhyw briodi yn ôl defodau Eglwys Lloegr na'r Eglwys yng Nghymru.
- Gellir cynnal priodasau cyplau o'r un rhyw mewn manau addoli sydd wedi'u cofrestru at y diben hwnnw â chaniatâd awdurdod llywodraethu'r sefydliad crefyddol.

- Ni all neb orfodi sefydliadau crefyddol i gymryd rhan mewn priodasau crefyddol cyplau o'r un rhyw.
- Caiff partneriaethau sifil eu cydnabod o hyd pan all cyplau o'r un rhyw briodi. Bydd partneriaid sifil yn gallu trosi eu partneriaeth yn briodas, os ydynt yn dymuno hynny. Mae gwaith wrthi ar draws y Llywodraeth i alluogi cyplau sydd eisiau trosi eu partneriaethau sifil yn briodasau i wneud hynny cyn gynted â phosibl. Mae'r Llywodraeth yn anelu at wneud hyn cyn diwedd 2014.
- Bydd unigolion yn gallu newid eu rhyw cyfreithlon heb orfod rhoi terfyn ar eu priodas, cyhyd â bod y ddau briod yn cytuno. Gellir gweithredu'r newidiadau hyn dim ond ar ôl bod y trefniadau priodas newydd a'r prosesau trosi yn eu lle, yr hyn mae'r llywodraeth yn anelu at eu cael yn eu lle cyn diwedd 2014.
- Gall unigolion fynegi barn cadarnhaol neu negyddol ynghylch cyplau o'r un rhyw yn priodi. Gellir cyfyngu ar yr hawl i ryddid mynegiant lle mae'n briodol ac yn angenrheidiol i amddiffyn hawliau pobl eraill.
- Mae'r Ddeddf yn galw ar y Llywodraeth i adolygu a ddylai sefydliadau cred nad ydynt yn grefyddol allu gweinyddu priodasau a gydnabyddir gan y gyfraith yn ôl eu defnyddiau; gweithrediad a dyfodol Deddf Partneriaeth Sifil 2004 yng Nghymru a Lloegr; a'r gwahaniaethau perthnasol mewn buddion i oroeswyr a gynigir gan gynlluniau pensiwn galwedigaethol.

Gweithredu'r Ddeddf

Mae'r Ddeddf yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr

Mae gan yr Alban system gyfreithiol wahanol ac mae ganddi ei deddfwriaeth ei hunan ynghylch priodas. Mae priodas yn yr Alban yn fater datganoledig i'w ystyried gan Senedd yr Alban, sydd wedi pasio Deddf Priodas a Phartneriaeth Sifil (yr Alban) 2014. Bydd yr EHRC yn cynhyrchu cyfarwyddyd ar wahân ar briodas cyplau o'r un rhyw yn yr Alban pan weithredir y deddfwriaeth honno. Cyn bod priodas cyplau o'r un rhyw yn dod yn gyfreithlon yn yr Alban, ymdrinir â phriodas cwpl o'r un rhyw a ffurfir dan gyfraith Cymru a Lloegr fel partneriaeth sifil yn yr Alban.

Hefyd mae'r gyfraith ynghylch priodas yn sylweddol o wahanol yng Ngogledd Iwerddon. Yn cychwyn yn mis Mawrth 2014, nid yw Cynulliad Gogledd Iwerddon yn

bwriadu ymestyn priodas i gyplau o'r un rhyw. O ganlyniad, ymdrinir â phriodasau cyplau o'r un rhyw sy'n digwydd dan gyfraith Cymru a Lloegr fel partneriaethau sifil yng Ngogledd Iwerddon; a bydd yn rhaid i unigolion sy'n dymuno newid eu rhyw cyfreithlon dan gyfraith Gogledd Iwerddon roi terfyn ar briodas bresennol ag unigolyn o'r rhyw arall o hyd er mwyn gwneud felly.

Hefyd gwneir darpariaeth yn y Ddeddf i briodasau Cymreig a Seisnig o gyplau o'r un rhyw ddigwydd tramor, er enghraifft mewn swyddfeydd consyliaid Prydeinig ac ar safleoedd y Lluoedd Arfog y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

O 13 Mawrth 2014, cydnabyddir priodasau tramor o gyplau o'r un rhyw fel priodasau yng Nghymru a Lloegr yn yr un modd â phriodasau cyplau o'r rhyw arall.

Gofynion ar gyfer priodas

Dros gyfnod o amser, mae'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr ynghylch sut a ble y gall priodasau gael eu gweinyddu wedi datblygu. Er enghraifft, ar un adeg roedd y gyfraith yn cydnabod dim ond priodasau a gynhelid gan Eglwys Lloegr, ond yn ddiweddarach caniatwyd i briodasau a gydnabyddid gan y gyfraith gael eu cynnal gan sefydliadau crefyddol eraill (a gyflwynir isod), a swyddfeydd cofrestru a ddarperir gan y Wladwriaeth ar gyfer pobl a oedd eisiau priodasau nad oeddynt yn grefyddol. Mae'r gyfraith yn cydnabod priodasau crefyddol eraill sy'n digwydd yng Nghymru a Lloegr os oes seremoni weinyddu sifil ddilys hefyd.

Cyflwynodd Deddf Partneriaeth Sifil 2004 gydnabyddiaeth gyfreithiol o berthnasau o'r un rhyw trwy greu partneriaethau sifil yn y DU. Erbyn hyn mae'r Ddeddf yn ymestyn priodas i gyplau o'r un rhyw yng Nghymru a Lloegr. Mae partneriaethau sifil yn dal i gael eu cydnabod yn dilyn y cyflwyniad o briodas o gyplau o'r un rhyw. Ni fyddant yn cael eu trosi yn briodasau fel mater o drefn, ond bydd y cyfle i'w trosi ar gael yn unol â phroses gyfreithiol ddiffiniedig (gweler yr adrannau 'effaith ar gyplau o'r un rhyw' a 'newidiadau posibl yn y dyfodol' isod am fanylion pellach).

Llywodraethir priodas yng Nghymru a Lloegr gan nifer o statudau sy'n cydnabod priodasau crefyddol a sifil a sy'n cyflwyno cyfres o ofynion ar gyfer seremoni sy'n ddilys yn ôl y gyfraith. Er enghraifft, mae'n rhaid i briodas gael ei chynnal gan swyddogion awdurdodedig mewn safleoedd a ganiateir a gellir eu gweinyddu:

- mewn eglwys gan offeiriad Eglwys Lloegr neu'r Eglwys yng Nghymru;
- gan gofrestrydd mewn swyddfa gofrestru neu mewn safleodd sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer gweinyddu priodasau;
- ym mnhresenoldeb unigolyn awdurdodedig mewn man addoli crefyddol a gofrestrir ar gyfer priodasau; neu
- dan weithdrefnau priodas Crynwraidd ac Iddewig.

Mae'n rhaid defnyddio geiriau neu lwon neilltuol er mwyn gweinyddu priodasau mewn ffordd ddilys, mae'n rhaid i briodasau gael eu tystio gan bobl eraill, ac mae'n rhaid iddynt fodloni gofynion ardystio a chofrestru eraill ynghylch ffurf y briodas fel sy'n ofynnol dan gyfraith Cymru a Lloegr.

Ar ben hynny, mae'n rhaid i'r cwpl sy'n priodi fod â'r galluedd i briodi, yn ôl cyfraith yr ardal lle roeddynt yn byw cyn i'r briodas ddigwydd. Yng Nghymru a Lloegr, mae'n rhaid iddynt fod o oedran i briodi, (16 oed a throsodd gyda chydysyniad y rhiant neu warcheidwad, neu 18 oed ac yn hŷn); mae'n rhaid nad ydynt yn briod eisoes na mewn partneriaeth sifil; mae'n rhaid nad ydynt yn perthyn yn rhy agos i'w gilydd; ac mae'n rhaid bod ganddynt y galluedd meddyliol sydd ei angen.

Mae'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yn goruchwyllo'r cofrestriad o briodasau yng Nghymru a Lloegr. Os yw priodas yn digwydd mewn safle nad yw wedi'i gofrestru ac/neu ar ffurf heb awdurdod, bydd yn ddi-rym os yw'r cwpl yn priodi o fwriad ac yn fodlon dan y fath amgylchiadau.

Llywodraethir diddymiad priodas yng Nghymru a Lloegr gan Ddeddf Achosion Priodasol 1973 yn bennaf. Mae hon yn cyflwyno'r ffeithiau y bydd y llysoedd yn dibynnu arnynt er mwyn rhoi ysgariad neu ddirymiad. Erbyn hyn mae'r Ddeddf hon yn perthyn hefyd i gyplau o'r un rhyw, gydag eithriadau penodol a gyflwynir isod.

Effaith ar gyplau o'r un rhyw

Y gallu i briodi

Mae'r estyniad o briodas i gyplau o'r un rhyw yn golygu y gallant briodi yn unol â'r gofynion cyfreithiol sy'n perthyn yng Nghymru a Lloegr erbyn hyn. Bydd partneriaid

sifil yn gallu trosi eu partneriaeth yn briodas yn unol â gweithdrefn a gyflwynir mewn rheoliadau a fydd yn dilyn ar ddyddiad diweddarach.

Bydd cyfraith Cymru a Lloegr sy'n perthyn i briodas yn perthyn i briodasau cyplau o'r un rhyw a chyplau o'r rhyw arall, oni bai y darperir fel arall. Mae hyn yn golygu, dan y mwyafrif o amgylchiadau, y caiff cyplau priod o'r un rhyw eu trin yn yr un ffordd â chyplau priod o'r rhyw arall. Ond mae rhai eithriadau, yn bennaf ynghylch hawliau pensiwn ar gyfer cymheiriaid sy'n goroesi. Yn yr achos hwn, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu, ac eithrio cyplau priod o'r rhyw arall y mae un ohonynt yn mynd trwy'r broses ailbennu rhywedd ac yn newid eu rhyw cyfreithiol, yn gyffredinol caiff cyplau priod o'r un rhyw eu trin yn yr un ffordd â phartneriaid sifil.

Gweinyddu priodasau

Gall priodasau cyplau o'r un rhyw gael eu gweinyddu gan bobl a awdurdodir i wneud hyn mewn swyddfeydd cofrestru, mewn safleoedd cymeradwy eraill (fel gwestai) ac mewn mannau cofrestredig o addoli crefyddol yn unol â defodau crefyddol neu weithdrefnau priodi (ac eithrio'r rhai hynny sy'n perthyn i Eglwys Lloegr neu'r Eglwys yng Nghymru), lle mae awdurdod llywodraethu perthnasol (RGA) y sefydliad crefyddol wedi dewis yn benodol i ganiatáu priodasau cyplau o'r un rhyw ac mae'r man addoli wedi'i gofrestru ar gyfer gweinyddu priodasau cyplau o'r un rhyw. Mae swyddogion sefydliadau crefyddol sy'n cynnal priodasau crefyddol yn rhydd i ddewis a ydynt yn dymuno cynnal priodasau cyplau o'r un rhyw neu beidio.

Mae RGA sefydliad crefyddol yn gorff a gydnabyddir fel hynny gan aelodau'r sefydliad hwnnw. Mewn rhai achosion, hwn fydd y corff cenedlaethol sy'n cael ei gydnabod o'r sefydliad hwnnw; mewn achosion eraill, lle nad oes strwythur hierarchaidd, bydd yn golygu cynulleidfaoedd neu grwpiau lleol. Mewn rhai achosion, bydd yr RGA yn gorff allanol. Mae y tu hwnt i gwmpas y cyfarwyddyd hwn i ddatgan yr RGA ar gyfer pob sefydliad crefyddol. Mae Adranau 4(4) a 5(5) y Ddeddf yn cyflwyno'n fanylach sut i adnabod yr RGA ar gyfer pob sefydliad crefyddol.

Ysgariad, godineb a phriodasau di-rym

Mae'r gyfraith yn caniatáu ysgariad pan yw priodas cwpl o'r un rhyw yn torri i lawr yn anadferadwy. Mae'r sylfaen ffeithiol ar gyfer ysgariad cyplau priod o'r un rhyw yn debyg i'r sylfaen sydd ar gael ar gyfer cyplau priod o'r rhyw arall.

Fodd bynnag, mae un gwahaniaeth. Diffiniwyd godineb mewn cyfraith achosion hir-sefydlog fel cyfathrach rywiol unigolyn priod gydag unigolyn o'r rhyw arall y tu allan i briodas; felly nid yw cyfathrach rywiol rhwng unigolyn priod ac unigolyn o'r un rhyw y tu allan i briodas yn golygu godineb (ac nid yw erioed wedi gweud hynny). Lle mae unigolyn sy'n briod â rhywun o'r un rhyw yn cael cyfathrach rywiol y tu allan i briodas, yna mae'r Ddeddf yn darparu bod y diffiniad cyfredol o odineb yn gymwys. Er na fydd gweithgarwch rywiol gydag unigolyn o'r un rhyw yn golygu godineb, bydd yn golygu ymddygiad afresymol, a gall cyplau o'r rhyw arall a chyplau o'r un rhyw fel ei gilydd wneud cais am ysgariad gan ddefnyddio'r ffaith hon er mwyn profi toriad anadferadwy o'r briodas. Caiff cyplau o'r un rhyw sydd wedi priodi dan gyfraith Cymru a Lloegr ond sy'n symud wedyn i fyw yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon eu trin fel partneriaid sifil dan gyfraith yr Alban neu Ogledd Iwerddon. (Pan ddaw priodas cyplau o'r un rhyw yn gyfreithlon yn yr Alban, caiff y fath gyplau eu cydnabod fel pobl briod yn yr Alban.) Caiff diddymiad eu partneriaeth sifil yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon ei drin fel diddymiad o'r briodas yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r seiliau y gellir dirymu priodas cwpl o'r un rhyw drostynt (hynny yw, lle y gellir gwneud cais i ddatgan bod y briodas yn ddi-rym os yw un o'r partion yn dymuno rhoi terfyn ar y briodas) ychydig yn wahanol i'r rhai hynny sydd ar gael i gyplau o'r un rhyw. Nid yw anghyflawniad y briodas (os yw oherwydd angalluedd neu wrthodiad bwriadol) yn sail y gellir dirymu priodas cwpl o'r un rhyw drosti.

Cymhwysedd rheolau a rhagdybiaethau eraill

Nid ymestynnir rhagdybiaeth y gyfraith gyffredin bod plentyn a enir i fenyw yn ystod hynt priodas yn blentyn y gŵr i gyplau priod o'r un rhyw. Fodd bynnag, mae moddion eraill i sicrhau cydnabyddiaeth rhieni dan y gyfraith sydd eisoes ar gael i bartneriaid sifil ac a fydd ar gael hefyd i gyplau priod o'r un rhyw.

Nid yw'r Ddeddf yn newid rheolau perthynas priodas, yn gwahardd priodasau, er enghraifft, rhwng sibliogiaid. Mae'r rheolau hyn yn dal yn eu lle ac yn gymwys nawr i gyplau o'r un rhyw hefyd.

Terminoleg

Mae'r Ddeddf yn darparu y bydd priodas cyplau o'r un rhyw yn cael yr un effaith dan y gyfraith ar y cyfan â phriodas cyplau o'r rhyw arall (adran 11(1) a (2) ac Atodlen 3).

Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y bydd y termau 'gŵr', 'gwraig', 'gweddw' a 'gŵr gweddw' pan y'i defnyddir mewn deddfwriaeth presennol yng Nghymru a Lloegr nawr hefyd yn cyfeirio at gyplau priod o'r un rhyw (oni bai y darperir yn benodol fel arall). Mewn deddfwriaeth newydd, bydd 'gŵr' yn golygu unrhyw ddyn priod, a bydd 'gwraig' yn golygu unrhyw fenyw briod.

Nid yw hyn yn effeithio ar offer cyfreithiol preifat fel ewyllysiau neu weithredoedd neu ddogfennau llywodraethu elusen, os cawsant eu drafftio cyn i'r Ddeddf ddod yn effeithiol. Bydd cyfeiriadau at briodas yn y dogfennau hynny'n dal i gael eu deall fel bod yr un ystyr ganddynt a oedd gyda nhw cyn bod y Ddeddf yn gymwys.

Effaith ar unigolyn priod sy'n dymuno newid ei ryw/rhyw cyfreithiol

Mae Deddf Cydnabod Rhyw 2004 (GRA) yn galluogi unigolyn i newid eu rhyw cyfreithiol trwy gyhoeddi Tystysgrif Cydnabod Rhyw (GRC) lawn. Yn flaenorol, os oedd ymgeisydd am GRC yn briod neu mewn partneriaeth sifil, roedd yn rhaid i'r ymgeisydd roi terfyn ar y berthynas gyfreithiol honno cyn y gellid cyhoeddi GRC lawn (gan fod priodas cyn y Ddeddf ar gael dim ond i gyplau o'r rhyw arall ac roedd partneriaethau sifil ar gael i gyplau o'r un rhyw yn unig).

Mae diwygiadau i'r GRA a wneir gan y Ddeddf yn darparu, lle mae unigolyn sy'n briod i rywun o'r rhyw arall yn dymuno newid ei ryw/rhyw cyfreithiol, bellach ni fydd rhaid iddi/iddo roi terfyn ar y briodas er mwyn derbyn GRC lawn. Yn lle, gall y briodas wreiddiol barhau fel priodas cwpl o'r un rhyw, cyhyd â bod cymar yr ymgeisydd yn cytuno trwy wneud datganiad statudol. Fodd bynnag, os nad yw'r cymar yn cytuno, bydd rhaid i'r ymgeisydd fynd trwy'r weithdrefn bresennol i roi terfyn ar eu priodas cyn y gellir cyhoeddi GRC lawn. Lle mae partner sifil yn dymuno newid ei ryw/rhyw cyfreithiol, bydd y cwpl yn gallu trosi eu partneriaeth sifil yn briodas cyn mynd trwy'r broses a amlinellir uchod. Daw'r holl diwygiadau hyn i'r GRA i rym ar ddyddiad diweddarach.

Effaith ar sefydliadau crefyddol

Mae'r Ddeddf yn caniatáu i sefydliadau crefyddol ddewis a fyddant yn priodi cyplau o'r un rhyw yn ôl eu defodau a gweithdrefnau priodi.

Os yw sefydliad crefyddol yn dewis peidio â phriodi cyplau o'r un rhyw, mae eu swyddogion yn rhwym wrth y penderfyniad hwnnw. Yn y sefyllfa honno, ni all swyddog crefyddol briodi cwpl o'r un rhyw yn ôl defodau crefyddol a gweithdrefnau priodi'r sefydliad hwnnw.

Os yw sefydliad crefyddol, heblaw am Eglwys Lloegr neu'r Eglwys yng Nghymru, yn dymuno priodi cyplau o'r un rhyw yn ôl eu defodau a gweithdrefnau priodi, gallant optio i mewn i wneud felly. Os yw'r sefydliad crefyddol yn optio i mewn, mae'n dal yn gyfreithlon i weinidog unigol, neu unigolyn sy'n gweithredu fel unigolyn awdurdodedig, wrthod cynnal neu gymryd rhan yn y briodas. Os yw'r sefydliad crefyddol wedi optio i mewn o'r blaen, gall ddewis optio allan.

Mae'r Ddeddf yn datgan na all neb orfodi sefydliadau crefyddol na'u swyddogion i gynnal neu gymryd rhan mewn priodasau crefyddol o gyplau o'r un rhyw.

Mae'r Ddeddf yn cydnabod sefyllfa unigryw Eglwys Lloegr a'r Eglwys yng Nghymru dan gyfraith Cymru a Lloegr. Nid yw'n gyfreithiol bosibl dan y Ddeddf i gwpl o'r un rhyw briodi yn ôl defodau Eglwys Lloegr neu'r Eglwys yng Nghymru.

Er mwyn i Eglwys Lloegr weinyddu priodasau cyplau o'r un rhyw, byddai'n rhaid i'w Synod Cyffredinol gymeradwyo Mesur ac wedyn byddai'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo hyn. Yn yr un modd, byddai'n rhaid i Gorff Llywodraethu'r Eglwys yng Nghymru ofyn i'r Arglwydd Ganghellor i wneud gorchymyn i'r perwyl hwn (yr hyn y mae'n rhaid iddi/iddo ei wneud dan bŵer a roddir dan y Ddeddf). Felly, yn y ddau achos mae gweithdrefn yn ei lle a fyddai'n galluogi'r eglwysi hynny i briodi cyplau o'r un rhyw yn ôl eu defodau, os ydynt yn dewis felly. Oni bai fod hyn yn digwydd, ni chaniateir i'r naill eglwys na'r llall (na'u clerigwyr) briodi cyplau o'r un rhyw yn ôl eu defodau, a bydd unrhyw briodas o gwpl o'r un rhyw a weinyddir gan yr eglwysi hynny'n ddi-rym. Nid ymestynnir dyletswydd y gyfraith gyffredin clerigwyr Eglwys Lloegr a'r Eglwys yng Nghymru i gynnal priodasau plwyfolion gan y Ddeddf i briodasau cyplau o'r un rhyw. Ar ben hynny, nid effeithir cyfraith Eglwysig Anglicanaidd gan y Ddeddf, felly gall barhau i ddatgan bod priodas yn golygu'r uniad o un dyn ac un fenyw.

Archwilir sefyllfa caplaniaid yn y dogfennau cyfarwyddyd ar gyfer sefydliadau crefyddol ac ar gyfer y gweithle a chyflenwi gwasanaethau. Mae'r penderfyniad i roi neu wrthod cydsyniad i weinyddu priodasau cyplau o'r un rhyw yn ôl defodau crefyddol yn gorffwys gydag RGA y sefydliad crefyddol ac nid gyda'i gaplaniaid na weinidogion/swyddogion eraill.

Effaith ar gofrestrwyr

Mae'r Ddeddf yn darparu y gall priodasau sifil cyplau o'r un rhyw ddigwydd mewn swyddfeydd cofrestru ac mewn safleoedd cymeradwy. Mae cofrestrwyr, cofrestrwyr arolygol a'r Cofrestrydd Cyffredinol yn swyddogion cyhoeddus ac mae'n ofynnol iddynt ymarfer eu swyddogaethau heb wahaniaethu. Nid yw'r Ddeddf yn caniatáu iddynt wrthod priodi cyplau o'r un rhyw, hyd yn oed os oes ganddynt wrthwynebiad crefyddol neu athronyddol i wneud felly. Trafodir sefyllfa cofrestrwyr yn llawnach yn y cyfarwyddyd ar y gweithle a chyflenwi gwasanaethau.

Effaith ar safleoedd a rennir gan sefydliadau crefyddol

Weithiau bydd sefydliadau crefyddol ag ymagweddau gwahanol tuag at briodi cyplau o'r un rhyw yn rhannu manau addoli. Fformiwleiddiwyd rheolau arbennig er mwyn sicrhau, mewn safleoedd a rennir, y gall priodasau cyplau o'r un rhyw ddigwydd dim ond lle mae cytundeb wedi'i gael gan awdurdodau llywodraethu'r holl sefydliadau crefyddol sy'n rhannu'r safleoedd. Cyflwynir y rhain yn y Ddeddf ac mewn Rheoliadau a wneir oddi dani:

<http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2014/9780111108734>

Gall sefydliad sy'n rhannu gytuno i sefydliad arall briodi cyplau o'r un rhyw yn yr adeilad, heb optio i mewn ei hunan i briodi cyplau o'r un rhyw yn ôl eu defodau neu weithdrefnau priodi. Pe byddai capel a rennir gan Eglwys Lloegr (neu'r Eglwys yng Nghymru) yn cael ei gofrestru ar gyfer priodi cyplau o'r un rhyw, ni fyddai'n gyfreithiol bosibl o hyd i unigolion o'r un rhyw briodi yn ôl defodau Eglwys Lloegr (neu'r Eglwys yng Nghymru) yn y capel hwnnw.

Cynhaliodd y Llywodraeth ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rheoliadau drafft ar gyfer Adeiladau Crefyddol a Rennir, a gauodd ar 1 Tachwedd 2013. Cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb i'r ymgynghoriad ar 23 Ionawr 2014 a gellir gweld yr ymateb perthnasol yma: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/marriage-same-sex-couples-act-2013>

Cyfraith cydraddoldeb a phriodas

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf Cydraddoldeb) yn gwahardd gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon yn seiliedig ar nodweddion gwarchoddedig, sy'n cynnwys priodas a phartneriaeth sifil, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol. Hefyd mae'n gwahardd erledigaeth anghyfreithlon sy'n cynnwys gwneud rhywun yn destun niwed oherwydd iddo gynnal gweithred warchoddedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae gan bobl â'r nodweddion gwarchoddedig hynny (a rhai eraill) hawliau unigol dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae gan gyflogwyr, darparwyr gwasanaethau, ysgolion ac awdurdodau cyhoeddus i gyd ddyletswyddau dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Gwnaeth y Ddeddf ddiwygiadau penodol i'r Ddeddf Cydraddoldeb. Yn neilltuoel, mae effaith y diwygiad ym mharagraff 43 Atodlen 7 i'r Ddeddf yn golygu ei fod yn wahaniaethau cyfeiriadedd rhywiol anghyfreithlon i drin unigolyn sy'n briod â rhywun o'r un rhyw yn llai ffafriol nag unigolyn sy'n briod â rhywun o'r rhyw arall, neu i'r gwrthwyneb, (yn amodol ar eithriadau penodol a gyflwynir yn y Ddeddf Cydraddoldeb). Hefyd diwygiodd y Ddeddf y Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn amddiffyn sefydliadau crefyddol a'u swyddogion nad ydynt yn dymuno priodi cyplau o'r un rhyw rhag honiadau o wahaniaethu.

Mae eithriadau crefyddol presennol a gynhwysir yn y Ddeddf Cydraddoldeb yn dal yn eu lle. Mae'r rhain yn cynnwys:

- lle mae cyflogaeth at ddibenion crefydd gyfundrefnol, gofynion galwedigaethol yn perthyn i ryw, priodas a chyfeiriadedd rhywiol (a ddiwygiwyd gan y Ddeddf i gynnwys gofyniad i beidio bod yn briod ag unigolyn o'r un rhyw) (Atodlen 9, paragraff 2);

- gofynion galwedigaethol yn seiliedig ar ethos crefyddol (Atodlen 9, paragraff 3);
- addoli a defodau crefyddol mewn ysgolion â chymeriad crefyddol (Atodlen 11, paragraffau 5 a 6);
- penodiadau addysgol yn seiliedig ar grefydd, gan gynnwys perthnasedd ymddygiad anghydnaws (Atodlen 22, paragraffau 3 a 4); ac
- eithriadau cyffredinol ar gyfer sefydliadau anfasnachol yn perthyn i grefydd neu gred (Atodlen 23, paragraff 2).

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (adran 149 y Ddeddf Cydraddoldeb) yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus a'r bobl hynny sy'n ymarfer swyddogaethau cyhoeddus i roi 'sylw dyledus' wrth ymarfer eu swyddogaethau i dri mater: a) cael gwared ar ymddygiad (fel gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth) a waherddir gan y Ddeddf, b) cynyddu cyfle cyfartal rhwng y rhai hynny sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai hynny nad ydynt, ac c) meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai hynny nad ydynt.

Nid yw'r ddyletswydd i roi 'sylw dyledus' yn ddyletswydd i gyflenwi canlyniadau neilltuol, nag i flaenoriaethu un agwedd ar gydraddoldeb uwchlaw un arall. Nid yw'n awdurdodi gwahaniaethu anghyfreithlon. Byddai gweithredu'r ddyletswydd hon yn cael ei lywodraethu gan yr un egwyddorion sy'n perthyn i unrhyw benderfyniadau neu weithredoedd eraill gan gorff cyhoeddus. Trafodir y rhain yn llawnach yn y cyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau cyhoeddus ac yn ein codau ymarfer ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Amddiffyn hawliau dynol unigolion crefyddol, sefydliadau crefyddol a chyplau o'r un rhyw

Hawliau dynol perthnasol

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 (y Ddeddf Hawliau Dynol) yn ymgorffori'r hawliau a gynhwysir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn) i mewn i gyfraith ddomestig. Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn galw ar y llysoedd domestig i

ddehongli'r gyfraith yn unol â hawliau'r Confensiwn, gan gymryd cyfreitheg Llys Hawliau Dynol Ewrop i gyfrif. Hefyd mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn galw ar awdurdodau cyhoeddus i weithredu'n gydnaws â hawliau'r Confensiwn.

Mae nifer o hawliau'r Confensiwn yn berthnasol i briodas gan gynnwys:

- Erthygl 8, parchu'r hawl i fywyd preifat a theuluol
- Erthygl 12, darparu'r hawl i briodi a chychwyn teulu yn unol â deddfau cenedlaethol sy'n llywodraethu ymarfer yr hawl hon
- Erthygl 14, gwahardd gwahaniaethu wrth weithredu hawliau'r Confensiwn

Nid yw'r hawl i briodi dan Erthygl 12 yn galw ar y Gwladwriaethau i ddarparu priodas ar gyfer cyplau o'r un rhyw. Fodd bynnag, os yw Gwladwriaeth yn darparu priodas ar gyfer cyplau o'r un rhyw dan y gyfraith, mae'n rhaid iddi ei wneud heb wahaniaethu anghyfiawnadwy dan Erthygl 14.

Mae hawliau'r Confensiwn hefyd yn amddiffyn rhyddid crefyddol, yn arbennig:

- Erthygl 9, amddiffyn rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
- Erthygl 10, amddiffyn rhyddid mynegiant
- Erthygl 11, amddiffyn rhyddid i ymgynull yn heddychlun a rhyddid i gysylltu gyda phobl eraill
- Erthygl 14, gwahardd gwahaniaethu wrth weithredu hawliau'r Confensiwn
- Erthygl 2 o Protocol 1, darparu hawl i dderbyn addysg

Mae llawer o'r hawliau hyn yn 'amodol', nid yn 'absoliwt'; mae hyn yn golygu y gellir eu cyfyngu lle mae angen gwneud hynny, er enghraifft, er mwyn amddiffyn hawliau a rhyddid pobl eraill.

Clo pedwarplyg

Mae'r Ddeddf yn cymryd cyfrif o hawliau'r Confensiwn. Mae'n darparu 'clo pedwarplyg' er mwyn amddiffyn sefydliadau crefyddol a'u swyddogion, tra'n caniatáu i gyplau o'r un rhyw briodi trwy seremoni sifil neu grefyddol. Mae'r clo pedwarplyg yn:

1. gwneud yn glir y bydd priodas grefyddol cwpl o'r un rhyw yn bosibl dim ond os:
 - mae corff llywodraethu'r sefydliad crefyddol wedi optio i mewn trwy roi cydsyniad pendant i briodasau cyplau o'r un rhyw, ac
 - mae'r swyddog unigol yn fodlon cynnal y briodas, ac
 - os yw'r briodas yn digwydd mewn man addoli, mae'r safle hwnnw wedi'i gofrestru ar gyfer priodasau cyplau o'r un rhyw.
2. datgan yn bendant na ellir gorfodi unrhyw sefydliad crefyddol i optio i mewn i briodi cyplau o'r un rhyw nag i ganiatáu i hyn ddigwydd ar ei safle; ac ni ellir gorfodi unrhyw sefydliad crefyddol trwy unrhyw fodd i gynnal neu gymryd rhan mewn priodasau cyplau o'r un rhyw.
3. diwygio'r Ddeddf Cydraddoldeb i wneud yn glir nad yw'n wahaniaethu anghyfreithlon i sefydliad crefyddol ac/neu ei swyddogion wrthod priodi cwpl o'r un rhyw.
4. sicrhau nad yw dyletswydd gyfreithiol y gyfraith gyffredin ar glerigwyr Eglwys Lloegr a'r Eglwys yng Nghymru i briodi plwyfolion yn ymestyn i gyplau o'r un rhyw. Mae'r Ddeddf hefyd yn amddiffyn cyfraith Eglwysig Eglwys Lloegr, sy'n datgan bod priodas yn uniad o un dyn gydag un fenyw, fel nad yw'n gwrthdaro â'r gyfraith sifil.

Os digwydd fod sefydliad crefyddol yn dewis optio i mewn i briodi cyplau o'r un rhyw yn ôl ei ddefodau neu weithdrefnau priodi, ond nad yw swyddog unigol o'r sefydliad hwnnw'n dymuno cynnal y fath briodasau oherwydd ei gredau/chredau crefyddol neu eraill, dylai'r sefydliad crefyddol ystyried dod o hyd i rywun arall yn ei le. Gallai hyn fod yn swyddog arall a awdurdodir i weinyddu priodasau o fewn y sefydliad hwnnw, neu gofrestrydd priodasau sydd ar gael lle mae angen i unigolyn awdurdodedig fod yn bresennol yn ystod y broses o weinyddu'r briodas.

Os nad yw'r naill na'r llall o'r opsiynau hynny ar gael, mae'r Ddeddf yn datgan yn glir y byddai'n anghyfreithlon i'r sefydliad crefyddol geisio gorfodi ei swyddog trwy unrhyw fodd i gynnal y fath briodasau. Fodd bynnag, mae gan sefydliadau crefyddol hawliau hefyd dan Erthyglau 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd) ac 11 (rhyddid i ymgynnull) y Confensiwn, sy'n caniatáu iddynt reoli eu materion mewnol heb ymyrraeth diangen ac anghymesur gan y Wladwriaeth.

Awgrymir yn gryf bod sefydliadau crefyddol sy'n optio i mewn a'u swyddogion yn trafod ac yn cyd-gytuno pwy fydd a phwy na fydd yn gweinyddu ar briodasau cyplau o'r un rhyw. Dylai hyn gynnwys yr hyn sydd angen ei wneud, a gan bwy, os digwydd fod swyddog yn gwrthod, ar fyr rybudd, i weinyddu ar briodas gan ei bod yn briodas cwpl o'r un rhyw. Bydd hyn yn helpu i osgoi gwrthdaro mewnol a bydd yn sicrhau y gellir cwrdd â disgwyliadau dilys a rhesymol cyplau o'r un rhyw.

Rhyddid mynegiant

Mae'r Ddeddf yn amddiffyn yr hawl i ryddid mynegiant fel y'i cyflwynir yn Erthygl 10 y Confensiwn. Felly gall unigolion fynegi barn gadarnhaol neu negyddol ynghylch priodas cyplau o'r un rhyw. Mae'r Llywodraeth wedi cydnabod bod y gred y gall priodas fod rhwng dyn a menyw yn unig yn gred sy'n werth ei pharchu mewn cymdeithas ddemocrataidd.

Mae pobl yn rhydd i fynegi barn bersonol ynghylch priodas cyplau o'r un rhyw, gan ddibynnu ar ffurf y geiriau a ddefnyddir a'r cyd-destun neilltuol a ddefnyddir. Mae hyn yn perthyn i bob math o gyfathrebu'n gyhoeddus ac yn y gweithle. Dylai unigolion sy'n mynegi cefnogaeth dros, neu wrthwynebiad i, briodas cyplau o'r un rhyw, yn gyhoeddus neu yn y gwaith, wneud hynny mewn ffordd resymol a chymhedrol.

Gellir cyfyngu ar yr hawl i fynegiant rhydd lle mae'n briodol ac yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn hawliau pobl eraill.

Mae'n rhaid i unigolion sy'n mynegi cefnogaeth dros, neu wrthwynebiad i, briodas cyplau o'r un rhyw yn gyhoeddus, osgoi ymddygiad dilornus neu fygythiol sy'n anghyfreithlon. Ni ddylai ymddygiad yn ystod cyflogaeth neu ddarpariaeth o wasanaethau dorri ar ddeddfau ynghylch gwahaniaethu ac aflonyddu ar sail ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhwiol neu grefydd neu gred.

Disgwylir i gyflogeion weithredu yn unol ag urddas berthnasol y gweithle yn y gwaith ac/neu bolisiau ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac mae'n rhaid gweithredu'r polisiau hynny'n gyson â hawliau'r Confensiwn. Disgwylir i glerigwyr ac offeiriaid crefyddol gydymffurfio ag athrawiaethau crefyddol. Mae'n rhaid i athrawon lynu at reolau ynghylch y cwricwlwm addysg ac ethos crefyddol yr ysgol.

Amddiffynir rhyddid mynegiant yn groyw dan ddarpariaethau'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 (POA) ynghylch y troseddau o annog casineb ar sail crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol (gweler Rhan 3A ac adrannau 29J a 29JA POA). Dan y Ddeddf, mae'r Senedd wedi amddiffyn ymhellach hawliau unigolion i fynegi eu barn ar briodas cyplau o'r un rhyw trwy drafod neu feirniadu heb wynebu unrhyw sancsiwn troseddol dan y POA, trwy fewnosod is-adran newydd yn adran 29JA. Er mwyn gwarantu na ddelir rhoi barn ar briodas cyplau o'r un rhyw yn unig gan y troseddau o ymddygiad bygythiol a lleferydd gasineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol, mae Adran newydd 29JA (2) o'r POA yn pennu: *'nid ystyrir y bydd unrhyw drafodaeth neu feirniadaeth o briodas ynghylch rhyw'r partïon i'r briodas ynddi ei hunan yn fygythiol nag â'r bwriad o ysgogi casineb.'* Mae'n adlewyrchu'r is-adran bresennol (1) sy'n ei wneud yn glir *'nid ystyrir y bydd unrhyw drafodaeth neu feirniadaeth o ymddygiad neu arferion rhywiol ynddi ei hunan yn fygythiol nag â'r bwriad o ysgogi casineb.'* Er mwyn i ymddygiad neu ymarweddiad cyhoeddus dorri ar y gyfraith droseddol, mae'r POA angen tystiolaeth y tu hwnt i amheuon rhesymol bod yr ymddygiad yn fygythiol ac â'r bwriad o ysgogi casineb ar sail crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'n rhaid cynnal yr ymchwilio, erlyn a phenderfynu ynghylch troseddau posibl, dan y POA a'r gyfraith droseddol yn fwy cyffredinol, yn unol â hawl unigolyn i ryddid mynegiant.

Effaith ar addysg ysgol

Nid yw'r Ddeddf yn newid cyfraith addysg ond mae'n effeithio ar y ddyletswydd gyfreithiol ar ysgolion a gynhelir i addysgu am 'natur priodas', sydd yn awr yn cwmpasu priodas cyplau o'r rhyw arall a chyplau o'r un rhyw fel ei gilydd dan gyfraith Cymru a Lloegr. Mae ein cyfarwyddyd ar gyfer ysgolion yn egluro effaith hyn yn fanylach.

Newidiadau posibl y dyfodol

Mae'r Llywodraeth wedi bod yn glir ers i'r Ddeddf gael ei phasio yng Ngorffennaf 2013 y byddai'r broses o drosi partneriaeth sifil yn briodas yn dod i mewn yn ddiweddarach na phriodas cyplau o'r un rhyw gan y bydd angen i weithdrefnau a phrosesau cwbl newydd gael eu cyflwyno. Mae hyn yn cyferbynnu â'r gwaith i

sicrhau bod priodasau o gyplau o'r un rhyw yn bosibl, sy'n adeiladu ar brosesau presennol ac yn gwneud eu gweithredu'n symlach. Mae'r Llywodraeth yn anelu at gael popeth yn ei le i alluogi cyplau i drosi eu partneriaethau sifil yn briodasau erbyn diwedd 2014.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys mesurau'n effeithio ar bensiwn y Wladwriaeth a hawliau pensiwn galwedigaethol cyplau priod o'r un rhyw. Yn arbennig, ar hyn o bryd gosodir hawliau pensiwn galwedigaethol cymheiriaid o'r un rhyw sy'n goroesi ar yr un lefel â'r rhai hynny ar gyfer partneriaid sifil (yn gyffredinol wedi'u hôl-ddyddio i hawliau pensiwn galwedigaethol a gronwyd ers 5 Rhagfyr 2005). Nid yw'r cyfyngiad hwn yn perthyn i hawliau pensiwn galwedigaethol ar gyfer cyplau priod o'r rhyw arall. Mae Atodlen 9, paragraff 18(1) o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn caniatáu hyn. Ar yr adeg ysgrifennu, mae ymgyfreitha ynghylch y ddarpariaeth hon wedi penderfynu ei fod yn gyfreithlon dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd trwy'r achos *Innospec Cyfyngedig ac Eraill v Mr J Walker (2014 UKEAT 0232)*. Fodd bynnag, gallai'r achos hwn symud ymhellach trwy'r llysoedd Apêl fel nad yw'r casgliad hwnnw'n derfynol nag yn ddiffiniol ar hyn o bryd. Hefyd ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth yn adolygu gwahaniaethau o ran buddion goroeswyr cyplau o'r un rhyw a chyplau o'r rhyw arall.

Mae cyfraith Cymru a Lloegr yn mynnu bod yn rhaid i briodas ddigwydd mewn swyddfa gofrestru, mewn safle cymeradwy (fel gwesty), neu mewn mannau addoli cofrestredig (gydag eithriadau ar gyfer priodasau yn ôl gweithdrefnau priodi lddewig neu Grynwraidd, priodasau gwely angau a phriodasau lle mae un neu ddau o'r cwpl yn gorfod aros yn y tŷ neu wedi'i/wedi'u cadw. Fodd bynnag, ni allai sefydliadau cred nad ydynt yn grefyddol, fel Dyneiddwyr, gwrdd â'r gofynion hyn i ganiatáu iddynt gynnal priodasau yn ôl eu defnyddiau. Fodd bynnag, mae hwn yn faes sy'n datblygu, yn y llysoedd (gweler R (ar gais *Hodkin ac un arall v Cofrestrydd Cyffredinol Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau (2013 UKSC 77)*) a gan fod y Ddeddf yn mynnu (yn adran 14) bod y Llywodraeth yn cynnal adolygiad i benderfynu a ddylid caniatáu priodasau yn ôl defnyddiau sefydliadau cred nad ydynt yn grefyddol. Mae'n rhaid i'r adolygiad gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus llawn ac mae'n rhaid cyhoeddi adroddiad ar y canlyniad cyn 1 Ionawr 2015. Mae'r Ddeddf yn darparu pŵer i'r Llywodraeth wneud is-ddeddfwriaeth er mwyn caniatáu priodasau yn ôl defnyddiau sefydliadau cred nad ydynt yn grefyddol, os mai dyna benderfyniad y Llywodraeth yn dilyn yr adolygiad.

Gwybodaeth bellach

Mae'r EHRC wedi cyhoeddi cyfres o ddogfennau cyfarwyddyd cyfannol:

Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013: y goblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer awdurdodau cyhoeddus

Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013: y goblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer sefydliadau crefyddol

Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013: y goblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer y ddarpariaeth o addysg ysgol

Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013: y goblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer y gweithle a chyflenwi gwasanaethau

Canllaw cyflym i'r Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013

Gweler hefyd y codau ymarfer statudol dilynol:

Cod Ymarfer Deddf Cydraddoldeb 2010 - Cod Ymarfer Statudol Cyflogaeth

http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/EqualityAct/employment_code.doc
[OC](#)

Cod Ymarfer Deddf Cydraddoldeb 2010 - Gwasanaethau, Swyddogaethau Cyhoeddus a Chymdeithasau

http://www.equalityhumanrights.com/uploaded_files/EqualityAct/services_code.doc